# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 03 Mawrth Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar Ddydd Mercher yr 8fed o Fawrth 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Loreen Lewis (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, y Cynghorwyr Carwyn James, Anne Sizmur, Delyth Richards, Graham Vaughan, Menna Roberts, Annette Price, E Audrey Jones, Peter Cowell a'r Cynghorwr Sir John D Evans

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Keith Rees a June Gunter.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 8 fed O CHWEFROR 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Arnallt James ac eiliodd y Cynghorwr Delyth Richards fod cofnodion cyfarfod yr 8fed o Chwefror 2006 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Torri Rheolaeth Cynllunio.
Dywedodd y Clerc ei bod wedi ysgrifennu eto at yr Adran Cynllunio ond nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price i'r Cynghorwr Anne Sizmur os yw hi wedi derbyn ymateb i'w llythyr. Dywedodd bod cynrychiolydd o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn ymweld â hi gan ofyn iddi gysylltu gydag ef ar unwaith os bydd hyn yn digwydd eto.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.2 Ardal Chwarae Heol Y Felin.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cynghorwr Graham Vaughan wedi ymweld â'r ardal chwarae ar ôl y cyfarfod diwethaf a bod clo wedi cael ei ddodi ar gatiau ardal chwarae Heol Y Felin.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.3 Trefniadau Sefydlog - Cyngor Cymuned Y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod yna fodel o Drefniadau Sefydlog ar gael gan Un Llais Cymru. Y pris am gopi caled yw £6.62 a'r pris am gopi electronig yw £14.99. Penderfynodd y Cynghorwyr i brynu copi electronig.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn prynu copi electronig o'r Trefniadau Sefydlog.

2.4 Eisteddfod Genedlaethol.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Chwefror ynglyn â'r uchod. Mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi hyn 99%, ond bod Cyngor Cymuned arall wedi dweud hoffent gael yr Eisteddfod Genedlaethol yn eu Cymuned nhw.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.5 Cynllun Ailgylchu Bocs Glas.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ag ailgylchu plastig. Cynigodd y Cynghorwr Delyth Richards fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn ble gall eitemau plastig heblaw poteli gael eu hailgylchu. Cytunodd y

Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Awdurdod Glo.
Cadarnhaodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth gan yr Awdurdod Glo ynglyn â Gwaith Glo rhif 1 Rhydaman. Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans yn pryderu ynglyn â mynedfa'r drifft. Roedd wedi ategu ei fod yn mynd i ofyn i'r Awdurdod Glo i wirio mynedfa'r drifft. Cynigodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Awdurdod Glo i ofyn iddynt archwilio pob mynedfa siafft ar Fynydd y Betws ac i gwrdda'r Cynghorwyr ar ôl i hyn gael ei wneud.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Awdurdod Glo.

Cynigodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am arwyddion ar y safle i ddweud am y perygl i ddiogelwch gan y gallai aelodau o'r cyhoedd cael damwain cas.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

3.2 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1. Newyddion Canolfan y Gymuned.
2. Noson Atal Sir Gâr - rhoddwyd i'r Cynghorwr Annette Price.
3. Excal Cyf.
4. Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig - Pentref y Flwyddyn Calor.
5. Llywodraeth Cynulliad Cymru - Rheoliadau Pwyllgorau Safonau 2006.
6. Yr Awdurdod Glo.
7. T.R.J.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Cytunwyd i'r cais isod gan Gyngor Cymuned y Betws:-
E/12425 - Byngalo 3 ystafell wely, ar blot dros nesaf i Fila Pencoed, Heol Maescware, Betws (29).
E/12279 - Estyniad 2 lawr i'r Siop a Gorsaf Betrol, Stryd Y Parc, Betws (28).

Nododd y Cynghorwr Peter Cowell fod cais am gynllunio wedi cael ei wrthwynebu yn y gorffennol, oherwydd ei bod yn rhy agos i ardal breswyl.
NODWYD: y pwynt uchod.

4.2 Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd i'r canlynol:-
E/10838 - Adeiladu Ty^/Ty^ Gwydr a garej breifat ar dir rhwng 108 a 112 Heol Maescware, Betws (14).
E/11806 - Newid defnydd yr ysgubor, Ffarm Gilfach Gower, Heol Argoed, Betws (24).
E/11807 - Estyniad cefn i'r Llawr Isaf, 102 Heol Betws, Betws (23).

4.3 Mae'r Cyngor Sir wedi caniatâu amrywiad i'r amodau cynllunio canlynol:-
E/11998 - Amrywiad i Gyflwr 4 ynglyn ag amser plannu E/09324, Gwaith Glo'r Betws, Rhydaman (25)

5. CYFRIFON.
1. Capel Newydd 3x Cyfarfodydd £30.00
2. Cyflog a Lwfans y Clerc £847.93
3. Treth Incwm y Clerc £168.68
4. Lwfans y Cadeirydd (2ail Randal) £100.00
5. Cyngor Sir Caerfyrddin - Goleuadau Llwybr Troed £274.54
6. Morgan & Morgan deunydd ysgrifennu £43.79
7. Rhodd - Sefydliad Arennau Cymru £50.00
8. Rhodd - Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Sir Gâr 2007 £200.00

9. Rhodd - Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen £100.00
10. Rhodd - Gofal Mewn Galar £50.00
11. Rhodd - Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr £50.00
12. Rhodd - Cylch Meithrin Betws £100.00
13. Rhodd - Clwb Criced Betws £200.00
14. Rhodd - Dechrau Cartref Dinefwr £100.00
15. Cynghorwr Peter Cowell £7.99
CYFANSWM £2322.93
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Esboniodd y Cynghorwr Carwyn James i'r Cynghorwyr nad yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn taflen mantolen gan Glwb Criced y Betws. Cytunodd y Cynghorwyr i roi rhodd o £200 i Glwb Criced y Betws er mwyn iddynt brynu dau fat criced. Awgrymodd y Cynghorwr Graham Vaughan fod yna gyfraniad ariannol yn cael ei roi i Glwb Criced y Betws yn flynyddol. Cynigiodd y Cynghorwr Delyth Richards bod y Clerc yn ysgrifennu at Glwb Criced y Betws i roi gwybod iddynt fod Cyngor Cymuned Y Betws am gael copi o'i mantolen cyn bod cyfraniad ariannol pellach yn cael ei wneud. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Glwb Criced y Betws.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Geoff Harries y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 4 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Chwefror. Maent fel a ganlyn:-
3 lladrad ac 1 byrgleriaeth. Ar hyn o bryd nid ydynt wedi'u datrys.
Bu 235 o bobl ifainc yn bresennol yn y Disgo Glas a gynhaliwyd ym mis Chwefror. Mae'r Disgo Glas nesaf ar y 23ain o fis Mawrth.

Diweddarodd PC Geoff Harries y Cynghorwyr am bwyntiau blaenoriaethu mis Chwefror.

Gofynnodd y Cynghorwr Sir John D Evans i PC Harries beth oedd yr Heddlu yn gwneud am y posibilrwydd o 'ref' arall ar Fynydd Y Betws. Dywedodd PC Harries y byddai'n gwneud ymholiadau a bydd yn dweud wrtho yn y cyfarfod nesaf.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ar y materion canlynol:-
1. Safle Betws - adroddodd ei fod yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r gweithredwr, ond nid yw ef wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.
NODWYD: y pwynt uchod.
2. Treth Y Cyngor - adroddodd fod yna llawer iawn o bobl yn dal i dalu Treth Y Cyngor, pan fo nhw wedi'u heithrio neu yn medru hawlio gostyngiad. Holodd y Cynghorwyr os oeddent yn gwybod am drigolion tebyg.
NODWYD: y pwynt uchod.
3. Trefniadau Sefydlog Cyngor Cymuned y Betws - dywedodd wrth y Cynghorwyr ei fod ef ar gael os maen nhw am godi unrhyw faterion ynglyn â'r Trefniadau Sefydlog gydag ef.
NODWYD: y pwynt uchod.

Gofynnodd Y Cynghorwr Delyth Richards i'r Cynghorwr Sir John D Evans os yw'n gallu siarad gyda rhywun ynglyn â Heol Iscennen, Rhydaman. Mae yna arwyddion uniaith Saesneg newydd ar hyd Heol Iscennen, ond dylai'r arwyddion fod yn Saesneg a Chymraeg bob yn ail. PENDERFYNWYD: bod y Cynghorwr Sir John D Evans yn siarad gyda'r Cynghorwr Sir Lleol ynglyn â'r mater hwn.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Parc Betws.
Rhoddodd y Cynghorwr Annette Price gynllun i'r Cynghorwyr o fel dylai Parc y Betws edrych

ar ôl i’r prosiect gael ei gwblhau. Esboniodd i’r Cynghorwyr yn fanwl am bob agwedd o'r cynllun. Esboniodd fod cost y cynllun yn £365 ond bod grant yn talu am hyn. Hefyd roedd y Cynghorwr Annette Price wedi ategu bod Adran y Parc yn mynd i gynnal Parc y Betws ar ôl i’r prosiect gael ei gwblhau.

Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod yr Is-bwyllgor yn cael yr awdurdod i fynd yn ôl at Gyngor Sir Caerfyrddin fel gall y camau nesaf gael eu cymryd. Cytunodd y Cynghorwyr.
NODWYD: y pwynt uchod.

9. UNRHYW FATER ARALL.
Nid oedd yna unrhyw fater arall.